# Darparu gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau

## Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â chasglu a dadansoddi gwybodaeth, ac yna ei defnyddio i wneud penderfyniadau pwysig. Gallai'r uned hon gynnwys amrywiaeth eang iawn o weithgareddau y gallech fod yn rhan ohonynt. Dyma rai o'r enghreifftiau: cynnal arolygon cwsmeriaid i weld a ddylid addasu ambell wasanaeth, dadansoddi defnydd o gyfleusterau i weld a ellid eu defnyddio'n fwy effeithiol, dadansoddi swyddi i weld pa fathau o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ddylai eich staff gael, edrych ar bapurau newydd ac ymchwilio i'r farchnad leol i weld a ddylid cyflwyno gwasanaethau newydd, casglu a dadansoddi gwybodaeth ariannol i ddatblygu cynllun busnes ac ati.

Rhennir yr uned yn dair rhan. Mae'r rhan gyntaf yn disgrifio'r pedwar peth mae'n rhaid i chi ei wneud, sef:

1. cael gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau
2. cofnodi a storio gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau
3. dadansoddi gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau
4. rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl eraill

Mae'r ail ran yn disgrifio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae'n rhaid i chi feddu arnynt.

Mae'r drydedd ran yn rhoi enghreifftiau ac esboniadau o rai o'r geiriau rydym ni'n eu defnyddio yn yr uned hon.

Mae'r uned ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth fel rhan o rôl eich gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cael gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau**

1.nodi’r wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn gwneud y penderfyniadau gofynnol
2.defnyddio ffynonellau gwybodaeth sy’n ddibynadwy ac yn ddigon eang i fodloni gofynion gwybodaeth yn awr a gofynion tebygol yn y dyfodol
3.defnyddio dulliau o gael gwybodaeth sy’n ddibynadwy, yn effeithiol ac yn defnyddio adnoddau’n effeithlon
4.defnyddio dulliau o gael gwybodaeth sy’n gyson â gofynion cyfreithiol, gwerthoedd a pholisïau’r sefydliad
5.cael gwybodaeth sy’n gywir, yn berthnasol ac yn ddigonol i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau
6.cymryd camau effeithiol yn ddi-oed i ddelio â gwybodaeth sy’n annigonol, yn gwrthddweud neu’n amwys

**Cofnodi a storio gwybodaeth**

7.defnyddio systemau a gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth sy’n addas i’r diben ac yn defnyddio adnoddau’n effeithlon
8.cofnodi a storio gwybodaeth mewn ffordd sy’n cydymffurfio â pholisïau’r sefydliad a gofynion cyfreithiol
9.cofnodi a storio gwybodaeth fel ei bod ar gael yn rhwydd yn y fformat gofynnol i bobl awdurdodedig yn unig
10.rhoi cyfleoedd i aelodau’r tîm gynnig awgrymiadau ar gyfer gwella systemau a gweithdrefnau
11.cynnig argymhellion ar gyfer gwella systemau a gweithdrefnau i’r bobl berthnasol
12.ystyried cyfyngiadau’r sefydliad

**Dadansoddi gwybodaeth i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau**

13.nodi amcanion ar gyfer y dadansoddiad sy’n glir ac yn gyson â’r penderfyniadau sydd angen eu gwneud
14.dewis gwybodaeth sy’n gywir, yn berthnasol i amcanion y dadansoddiad, ac yn ddigonol er mwyn gwneud penderfyniad dibynadwy
15.defnyddio dulliau dadansoddi sy’n addas i gyflawni’r amcanion a nodwyd gennych
16.dadansoddi’r wybodaeth er mwyn i chi adnabod y patrymau a’r tueddiadau’n gywir
17.cefnogi’r casgliadau a gewch o’r dadansoddiad gan roi rhesymau dros ddadleuon a thystiolaeth briodol
18.gwahaniaethu’n glir rhwng ffaith a barn wrth gyflwyno canlyniadau’r dadansoddiad
19.cadw cofnodion o’r dadansoddiad sy’n ddigonol i ddangos y tybiaethau a’r penderfyniadau a wnaed ym mhob cam

**Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl eraill**

20.ymchwilio i weld beth yw anghenion y bobl sy'n cael gwybodaeth a chyngor gennych a gwneud hynny mewn modd priodol a digonol gan ystyried cyfyngiadau'r sefydliad
21.rhoi gwybodaeth a chyngor ar adeg briodol, mewn lle priodol, ac ar ffurf briodol i anghenion y bobl sy'n eu cael
22.darparu gwybodaeth sy'n gywir, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn ddigonol;
23.rhoi cyngor sy'n gyson â chyfyngiadau, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
24.wrth roi cyngor, rhoi rhesymau wrth ddadlau a thystiolaeth briodol
25.cadarnhau bod y bobl sy'n cael y wybodaeth a'r cyngor gennych wedi'u deall
26.cadw cyfrinachedd yn unol â gofynion y sefydliad a gofynion cyfreithiol;
27.defnyddio adborth gan y bobl sy'n cael gwybodaeth a chyngor er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.sut mae egwyddorion gwaith chwarae sy'n sail i'ch sector yn ymwneud yn benodol â'r uned hon

**Technegau dadansoddi**

2.sut mae barnu a yw'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn gwahanol gyd-destunau yn gywir, yn berthnasol ac yn ddigonol
3.sut mae adnabod gwybodaeth a all fod yn annigonol, yn amwys neu'n gwrthddweud a sut mae delio â'r problemau hyn
4.gwahanol ffyrdd a dulliau o ddadansoddi gwybodaeth a sut mae dewis dulliau sy'n briodol i'r penderfyniadau mae'n rhaid i'r rheolwr eu gwneud
5.sut mae dadansoddi gwybodaeth er mwyn adnabod patrymau a thueddiadau
6.sut mae dod i gasgliadau ar sail dadansoddi gwybodaeth
7.y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn, sut mae adnabod y rhain a'u cyflwyno yn unol â hynny

**Cyfathrebu**

8.gwahanol fformatau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ansoddol a meintiol y gall fod ei hangen
9.sut mae dewis y fformat priodol ar gyfer gwahanol ddibenion a gwahanol bobl sy'n cael y wybodaeth
10.sut mae datblygu a chyflwyno achos ar sail canlyniadau dadansoddiad
11.sut mae cyfleu gwybodaeth a chyngor yn effeithiol ar lafar ac ar bapur
12.sut mae datblygu a chyflwyno achos â rhesymau wrth ddarparu cyngor i bobl eraill
13.pam ei bod yn bwysig cadarnhau bod pobl sy'n cael y wybodaeth a'r cyngor a roddwyd yn eu deall, a'r dulliau y gellid eu defnyddio er mwyn sicrhau hynny

**Gwella parhaus**

14.sut mae asesu effeithiolrwydd y dulliau presennol o gasglu a storio gwybodaeth a pha weithdrefnau i'w dilyn er mwyn cynnig argymhellion ar wella

**Trin gwybodaeth**

15.pwysigrwydd rheoli gwybodaeth o ran effeithiolrwydd y tîm a'r sefydliad, a'ch rôl a'ch cyfrifoldeb mewn perthynas â hyn
16.y mathau o wybodaeth ansoddol a meintiol sy'n hanfodol i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau a sut mae adnabod y rhain
17.yr amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i chi a sut mae sicrhau bod y rhain yn gallu bodloni gofynion gwybodaeth yn awr a gofynion tebygol yn y dyfodol
18.sut mae adnabod ffynonellau newydd o wybodaeth y gall fod ei hangen
19.yr amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth o'r fath ac i'w dilysu, a manteision ac anfanteision y dulliau hynny

20.gwahanol ddulliau o gofnodi a storio gwybodaeth a'u manteision a'u hanfanteision
21.sut mae gwneud yn siŵr bod gwybodaeth wedi'i threfnu mewn modd sy'n sicrhau ei bod ar gael yn rhwydd
22.egwyddorion cyfrinachedd – pa wybodaeth ddylai fod ar gael i bwy
23.pwysigrwydd dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol a'ch rôl a'ch cyfrifoldeb chi mewn perthynas â hyn
24.y mathau o wybodaeth ansoddol a meintiol sydd ei hangen arnoch er mwyn i chi allu dadansoddi
25.sut mae dewis gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad i'w wneud a sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn gywir ac yn berthnasol
26.pwysigrwydd cadw cofnodion o ran y broses dadansoddi gwybodaeth a sut dylid cadw a defnyddio cofnodion o'r fath
27.pam ei bod yn hanfodol gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a'r cyngor a roddir i bobl eraill yn ddilys
28.sut mae sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor yn gywir, yn gyfredol, yn ddigonol ac yn berthnasol
29.egwyddorion cyfrinachedd wrth drin gwybodaeth a chyngor – pa fathau o wybodaeth a chyngor y gellir eu rhoi i bwy

**Cynnwys a chymell**

30.pam ei bod yn bwysig rhoi cyfleoedd i aelodau'r tîm gynnig argymhellion ar gyfer gwella systemau a gweithdrefnau
31.sut mae annog a galluogi argymhellion o'r fath

**Cyd-destun y sefydliad**

32.gofynion cyfreithiol a pholisïau'r sefydliad sy'n effeithio ar gofnodi a storio gwybodaeth a sut mae dehongli'r rhain
33.cyfyngiadau'r sefydliad o ran adnoddau, a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a all ddylanwadu ar y cyngor a roddir i eraill

**Darparu cefnogaeth**

34.pam ei bod yn bwysig darparu cyngor a gwybodaeth a'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
35.y mathau wybodaeth a chyngor y gall fod eu hangen ar bobl
36.sut mae canfod anghenion o ran gwybodaeth
37.sefyllfaoedd lle mae'n briodol i chi weithredu ar eich liwt eich hun wrth roi gwybodaeth a chyngor
38.pam ei bod yn bwysig gofyn am adborth am ansawdd a pherthnasedd y wybodaeth a'r cyngor rydych chi'n eu rhoi

## Cwmpas/Ystod

**1. gwybodaeth**

1.1.meintiol
1.2.ansoddol

**2. ffynonellau gwybodaeth**
2.1.pobl o fewn eich sefydliad
2.2.pobl y tu allan i'ch sefydliad
2.3.systemau gwybodaeth mewnol
2.4.cyfryngau a gyhoeddir
2.5.ymchwil a gomisiynwyd yn arbennig

**3. dulliau**
3.1.gwrando a gwylio
3.2.darllen
3.3.holi ar lafar
3.4.holi ar bapur
3.5.ymchwil ffurfiol a gynhelir gennych chi'ch hun
3.6.ymchwil ffurfiol a gynhelir gan drydydd parti

**4. systemau a gweithdrefnau**
4.1.ar draws y sefydliad cyfan
4.2.yn benodol i'r ymgeisydd a'u tîm

**5. cyfyngiadau'r sefydliad**
5.1.amcanion y sefydliad
5.2.polisïau'r sefydliad
5.3.adnoddau

**6. dadansoddi**
6.1.ffurfiol ac wedi'i drefnu
6.2.anffurfiol ac ad hoc

**7. penderfyniadau yn ymwneud â**
7.1.gwaith pob dydd
7.2.newidiadau ym mholisi'r sefydliad sy'n effeithio ar waith

**8. cyngor a gwybodaeth**
8.1.mewn ymateb i gais
8.2.ar eich liwt eich hunan

**9. y bobl sy'n cael gwybodaeth a chyngor**
9.1.aelodau tîm
9.2.cydweithwyr sy'n gweithio ar yr un lefel
9.3.rheolwyr lefel uwch a noddwyr

9.4.pobl y tu allan i'ch sefydliad

**10. ffurflenni**
10.1.ar lafar
10.2.ysgrifenedig

## Geirfa

**Ansoddol**

Rhywbeth heb ei grynhoi ar ffurf rifiadol, fel cofnodion cyfarfodydd a nodiadau cyffredinol o arsylwadau. Mae data ansoddol yn disgrifio gwybodaeth, agweddau neu ymddygiad pobl fel arfer ac yn aml iawn mae'n fwy goddrychol.

**Meintiol**
Rhywbeth wedi'i fesur neu mae modd ei fesur yn ôl nifer, neu sy'n ymwneud â nifer, ac mae'n cael ei fynegi mewn rhifau neu niferoedd.

**Adnoddau* *
Er enghraifft, cyllid, cyngor a gwybodaeth, adnoddau ffisegol (fel offer a deunyddiau, adeiladau ayb), hyfforddiant a datblygiad

Darparu gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Security |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Meh 2010 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Meh 2015 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SA44NA42 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Elfennol, Galwedigaethau Diogelwch Elfennol |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Diogelwch Digwyddiad |
| **Geiriau Allweddol** | darparu, gwybodaeth, cefnogi, penderfyniadau, gwneud |